



Bae Caerdydd

"Mae'r daith gerdded hawdd hon yn mynd â chi allan ar yr Argae. Byddwch yn gweld cychod amrywiol yn gadael neu'n cyrraedd y Bae trwy'r llifddorau. Mae'r golygfeydd gwych o'r Argae yn ymestyn allan at nysoedd Echni a Rhonech."

ALISON ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau/Diwedd:

Adeilad Senedd Cynulliad Cymru i Morglawdd Caerdydd

Pellter: 2Km / 1 milltir. Taith gerdded estynedig:

O Morglawdd Caerdydd i dref Penarth yn 2km / 1 milltir

Gwybodaeth:

Yn dechrau o flaen adeilad eiconig Senedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Llwybr Arfordir Cymru yn troelli ar hyd lan y dŵr ar ei ffordd tuag at y môr. Byddwch yn mynd heibio i'r Eglwys Norwyaidd wen lle bedyddiwyd yr awdur Roald Dahl a gafodd ei eni yng Nghaerdydd. Gall ymwelwyr iau fwrw eu hegni yn y lle chwarae, y parc sglefrio a'r gampfa awyr agored ar hyd y ffordd. Ger mainc enwog crocodeil Roald Dahl edrychwch am banel Llwybr Arfordir Cymru i brofi Realiti Estynedig gan ddefnyddio'ch dyfais symudol (ffôn clyfar neu dabled). Gallwch ddarganfod sut oedd bywyd yn yr 1920au ym Mae Caerdydd, un o'r systemau dociau mwyaf yn y byd ar y pryd. Wedi cyrraedd pen draw'r Argae, gallwch ddychwelyd ar yr un llwybr neu fynd ymlaen tuag at ganol tref Penarth, y pier

Fictoriaidd prydferth a'r traeth cerigos am hufen iâ haeddiannol. Gallwch ddychwelyd ar droed neu ar gludiant cyhoeddus.

Ar y ffordd...

Mae'r daith gerdded hon yn mynd trwy ddociau hanesyddol Caerdydd lle mae pethau difyr ar gyfer ymwelwyr iau fel Techniquet (Canolfan gwyddoniaeth a darganfod Cymru) a lleoedd chwarae yn yr awyr agored.

Cynlluniwch eich ymweliad:

ARGAE BAE CAERDYDD: visitcardiff.com/attractions/cardiff-bay-barrage

ADEILAD Y SENEDD: assembly.wales/en/visiting/senedd/Pages/sen-visiting.aspx

EGLWYS NORWYAIDD: norwegianchurchcardiff.com

TREF PENARTH: visitthevale.com/en/Destinations/Penarth.aspx

NEXT BIKE: nextbike.co.uk/en/cardiff/

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS: traveline.cymru

GWEFAN DWIRISTIAETH: visitcardiff.com

Cyn gadael:

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru er mwyn profi'r ardal mewn Realiti Estynedig.

